Enw _____

DARLLENWCH
Mathew 16: 13-28

ADNOD ALLWEDDOL
Rhufeiniaid 10: 9

Astudiaeth 3 Pedr - Ei Gyffes (Ei Ddatganiad)

Awgrymiadau ar Gyfer Darllen Pellach
Effesiaid 2: 18-22 Colosiaid 1: 18 1 Pedr 2: 4-8

Yn y wers hon rydyn ni'n gadael Llyn Galilea ac yn mynd tua'r gogledd.

Ar y map, marciwch enw'r lle yr aeth Iesu a'i ddisgyblion iddo.



Yn y lle unig hwn fe ofynnodd Iesu DDAU gwestiwn i'w ddisgyblion amdano'i Hun, Mab y Dyn.

C **Ysgrifennwch y cwestiwn cyntaf.** 1

C **Roedden nhw'n medru rhoi tri ateb i'r cwestiwn hwn. Beth oedden nhw?** 3

1.	**2.**
3.	

Nid oedd yr un o'r dynion hyn (yn yr atebion) wedi bod ar y ddaear ers tro, ond roedd rhai pobl yn credu eu bod nhw wedi dod yn ôl fel person gwahanol - Iesu! Mae hyn yn swnio'n rhyfedd i ni, oherwydd mae'r Beibl yn ein dysgu ein bod i farw "unwaith" (Hebreaid 9: 27), ac nid ydym yn dod yn ôl fel rhywun arall!

C **Yn awr ysgrifennwch yr ail gwestiwn.** 1

Roedd y cwestiwn hwn yn wahanol! Roedd yn fwy personol. Roedd UN disgybl yn barod i roi ateb clir iawn.

C **Pwy oedd y disgybl?** 1

C **Ysgrifennwch ei ateb.** 1

Fe wnaeth y dyn hwn gyffes ryfeddol! Roedd e'n dweud ei fod yn hollol siwr mai Iesu oedd y Gwaredwr (y "Crist" neu y "Meseia") oedd wedi cael ei addo ers amser hir, a'i fod wedi dod oddi wrth Dduw, a bod ganddo berthynas arbennig ag Ef. ("Mab y Duw byw")

Gofynnwch i **chi** eich **hun**, "Pwy ydw i yn ddweud yw Iesu?" Mae gan lawer o bobl wahanol syniadau amdano, ond i chi, yn bersonol, y peth pwysig yw ei gyffesu fel Arglwydd, a chredu ynddo ef yn eich calon. Dyna'r ffordd i gael eich achub.

C **Darllenwch, ac ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

Fe glywodd yr Arglwydd Iesu ateb Pedr ac yna siaradodd ag ef.

C **Darllenwch adnodau 17-20 ac yna rhowch CYWIR neu ANGHYWIR ar ôl pob un o'r rhain:-**

- Fe gafodd Pedr ei geryddu am ei ateb ffôl .....
- Y Tad Nefol a ddatguddiodd hyn i Pedr .....
- Fe siaradodd Iesu am ddinistrio'r deml .....
- Fe ddywedodd y byddai yn adeiladu Ei eglwys .....
- Roedd y disgyblion i ddweud wrth bawb yr hyn yr oedd Iesu wedi ei ddweud .....

5

Pan siaradodd Iesu am "adeiladu fy eglwys" nid oedd yn meddwl am godi eglwys o gerrig fel eglwys heddiw. Yn y Beibl, mae'r gair "eglwys" bob amser yn cyfeirio at "bobl". Roedd yr Arglwydd yn dweud y byddai torfeydd o bobl yn y blynyddoedd i ddod yn credu ynddo Ef. Y bobl hyn yw "Ei eglwys Ef", lle bynnag maen nhw'n byw. Dylai pob un ohonon ni feddwl am hyn: A ydw i'n aelod o'i eglwys Ef?

2

C O'r amser hwnnw ymlaen, roedd Ef yn siarad am rywbeth cwbl wahanol. (Edrychwch ar adnod 21.) **Beth oedd hynny?**

C Mae hyn yn ein hatgoffa mai dim ond drwy Ei farwolaeth a'i atgyfodiad Ef y medr pobl gael eu hachub a dod yn rhan o'i Eglwys. Unwaith eto, Pedr sydd yn barod i siarad!

Sut wnaeth Pedr ymateb i'r hyn a ddywedodd Iesu am ei ddioddef a'i farw?

1

C Y tro hwn, roedd geiriau Pedr yn ffôl iawn, a bu'n rhaid i'r Arglwydd Iesu siarad yn chwyrn iawn ag ef. **Ail drefnwch y pum gair hyn, a rhowch nhw yn eu trefn gywir i weld beth a ddywedodd Iesu wrth Pedr.**

M'O SDO THIAMY ATSNA LGGWO

2

.....

Mae ateb Iesu yn dangos mor barod ydoedd i farw droson ni. Fe wyddai Ef fod yn rhaid iddo farw er mwyn symud ein pechod. Nid oedd neb na dim a fedrai ei rwystro. Heddiw, mae yn galw arnom i "Godi'r groes a'i ganlyn Ef" (edrychwch ar adnod 24). Ydych chi'n barod i wneud hyn YN AWR?